# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## CYLCH GORCHWYL

**1. Llywodraethu**

1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn un o Bwyllgorau Priodoldeb y Cyngor. Mae'n cyflawni'r dyletswyddau canlynol yn unol â'i ddatganiad o ddiben, ac yn adrodd i'r Cyngor llawn.

**2. Datganiad o Ddiben**

2.1 Pwrpas y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (y Pwyllgor) yw darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Mae ei rôl wrth sicrhau bod digon o sicrwydd dros lywodraethu, risg a rheolaeth yn rhoi mwy o hyder i'r Cyngor bod y trefniadau hynny'n effeithiol

2.2 Mae gan y Pwyllgor drosolwg o archwilio mewnol ac allanol, ynghyd â'r adroddiadau ariannol a llywodraethu, gan helpu i sicrhau fod trefniadau digonol yn eu lle ar gyfer heriau mewnol ac atebolrwydd cyhoeddus.

**3. Cyfansoddiad**

3.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn darparu bod yn rhaid i o leiaf traean o aelodau'r Llywodraethu a'r Pwyllgor fod yn aelodau lleyg. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 9 aelod Cynghorydd a 6 aelod nad ydynt yn Aelod o'r Cyngor (aelodau lleyg). Ni chaiff mwy nag un aelod o'r Pwyllgor fod yn aelod o'r Cabinet (rhaid i'r Aelod Cabinet beidio â bod yr Arweinydd) neu'n Gynorthwyydd i'r Cabinet.

3.2 Penodir Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Dirprwy Gadeirydd ganddo. Rhaid i'r person a benodir yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod lleyg. Ni all y person a benodir yn Is-gadeirydd fod yn aelod o'r Cabinet nac yn Gynorthwyydd i'r Cabinet.

**4. Swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

4.1 Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol a ganlyn o dan Adran 81 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'i diwygiwyd:

- adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod,
- gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,

- adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod,
- gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
- adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol,
- gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol,
- archwilio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac
- adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod.

## 5. Llywodraethu, Perfformiad, Risg a Rheolaeth

- Adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu da, gan gynnwys y fframwaith moesegol, ac ystyried y cod llywodraethu lleol.
- Adolygu Adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor a gwneud unrhyw argymhellion priodol ar gyfer newidiadau.
- Adolygu ymateb drafft y Cyngor i'r Adroddiad Asesu Perfformiad a gwneud unrhyw argymhellion priodol ar gyfer newidiadau.
- Adolygu ymateb drafft y Cyngor i unrhyw argymhellion yr Archwiliwr Cyffredinol sy'n codi o arolwg arbennig yng nghyswllt gofynion perfformiad y Cyngor a gwneud unrhyw argymhellion priodol ar gyfer newidiadau.
- Adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol a llunio adroddiadau ac argymhellion cysylltiedig mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.
- Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol rheolaeth risg yn y Cyngor.
- Monitro cynnydd wrth fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â risg a adroddwyd i'r Pwyllgor.
- Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a monitro gweithrediad camau gweithredu y cytunir arnynt.
- Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth ariannol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA.
- Ystyried trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.
- Adolygu'r asesiad o risgiau twyll a difrod posib i'r Cyngor o dwyll a llygredd.
- Monitro'r strategaeth gwrth-dwyll, camau gweithredu a'r adnoddau.
- Adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer partneriaethau neu gydweithio arwyddocaol.

**6.** **Adrodd Ariannol ac Adrodd am Lywodraethu**

***Adrodd am Lywodraethu***

- Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS[1]) cyn ei gymeradwyo ac ystyried a yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol yn briodol, gan gynnwys casgliad cyffredinol blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol (Rheolwr Archwilio) ynghylch effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg. Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang 11.3 (*Cyfathrebu Canlyniadau*).
- Ystyried a yw'r gwerthusiad blynyddol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dod i'r casgliad yn deg bod trefniadau llywodraethu yn addas i'r diben, gan gefnogi cyflawni amcanion yr awdurdod.

***Adrodd Ariannol***

- Monitro'r trefniadau a'r paratoadau ar gyfer adrodd ariannol i sicrhau bod modd bodloni gofynion statudol a safonau proffesiynol.
- Adolygu'r datganiad cyfrifon blynyddol. Yn benodol, ystyried a yw polisïau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn ac a oes pryderon sy'n deillio o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad y mae angen eu dwyn i sylw'r Cyngor.
- Ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar faterion sy'n codi o archwilio'r cyfrifon.
- Ystyried adroddiadau ar swyddogaeth Rheoli Trysorlys, gan gynnwys y Strategaeth Rheoli Trysorlys.

**7.** **Trefniadau ar gyfer Archwilio a Sicrwydd**

Ystyried fframwaith sicrwydd y Cyngor a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn ddigonol â risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor.

***Archwilio Mewnol***

- Cymeradwyo'r Siarter, y Mandad a Strategaeth Archwilio Mewnol.
- Adolygu cynigion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol ac i wneud argymhellion.
- Cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, sy'n cynnwys gofynion adnoddau archwilio mewnol, y dull o ddefnyddio ffynonellau sicrwydd eraill ac unrhyw waith sy'n ofynnol i ddibynnu ar y ffynonellau eraill hynny.
- Cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a gofynion adnoddau. Gwneud ymholiadau priodol i'r rheolwyr a'r rheolwr archwilio i benderfynu a oes unrhyw gyfyngiadau cwmpas neu adnoddau amhriodol.

[1] Annual Governance Statement

- Ystyried unrhyw amhariadau ar annibyniaeth neu wrthrychedd sy'n deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y tu allan i archwilio mewnol ac i gymeradwyo ac adolygu mesurau diogelu o bryd i'w gilydd i gyfyngu ar amhariadau o'r fath.
- Ystyried adroddiadau gan y Rheolwr Archwilio ar berfformiad Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol o wasanaethau archwilio mewnol. Bydd y rhain yn cynnwys:
    - ➢ Diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys deilliannau allweddol, materion o bryder a'r camau gweithredu sydd ar waith o ganlyniad i waith archwilio mewnol
    - ➢ Adroddiadau rheolaidd ar ganlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (QAIP)
    - ➢ Adroddiadau ar enghreifftiau lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, Nodyn Cymhwyso'r Safonau yn Sector Cyhoeddus y DU a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol, gan ystyried â yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fod yn rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Ystyried adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio: -
    - ➢ Datganiad o lefel y cydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, y Nodyn Cymhwyso i'r GIAS a Nodyn Cymhwyso'r Safonau yn Sector Cyhoeddus y DU, a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd sy'n cefnogi'r datganiad (bydd rhain yn dynodi pa mor ddibynadwy yw casgliadau archwilio mewnol)
    - ➢ Y farn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg y Cyngor ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn - bydd y rhain yn cynorthwyo'r Pwyllgor i adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd.
- Derbyn adroddiadau sy'n amlinellu'r camau a gymerir pan fo'r Rheolwr Archwilio wedi dod i'r casgliad bod rheolwyr wedi derbyn lefel o risg a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu mae pryderon ynghylch cynnydd wrth weithredu'r camau y cytunwyd arnynt.
- Cyfrannu at y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella ac yn benodol asesiad ansawdd allanol archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd.
- Ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle mae'n ofynnol gwneud hynny gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

- Darparu mynediad rhydd a dirwystr i'r Rheolwr Archwilio i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys y cyfle am gyfarfod preifat gyda'r Pwyllgor.

***Archwilio Allanol***

- Ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol a'r adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
- Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunwyd arnynt gyda'r archwilwyr allanol.
- Gwneud sylwadau ar gwmpas a dyfnder gwaith archwilio allanol ac sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian.
- Ystyried comisiynau gwaith ychwanegol gan archwilio allanol.
- Cynghori ac argymell ar effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwilio allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.
- Darparu mynediad rhydd a dirwystr i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r cyfle am gyfarfod preifat gyda'r Pwyllgor.

## 8. Trefniadau Atebolrwydd

- Adrodd i'r Cyngor ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, trefniadau adrodd ariannol a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.
- Adrodd i'r Cyngor llawn ar waith y Pwyllgor, ei berfformiad mewn perthynas â'r Cylch Gorchwyl ac effeithiolrwydd y Pwyllgor wrth gyflawni ei ddiben.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor, gan gynnwys casgliad ar gydymffurfiaeth â Datganiad Safbwynt CIPFA.

## 9. Cefnogaeth ar gyfer Archwilio Mewnol

9.1 Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (2025), mae gweithgareddau archwilio mewnol yn gofyn am fynediad at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chefnogaeth ganddo, h.y. y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Mae cefnogaeth yn caniatáu i archwilio mewnol gymhwyso eu mandad a'u siarter yn ymarferol a bodloni disgwyliadau.

9.2 Mae cefnogaeth yn golygu:

- Hyrwyddo rôl a gwaith archwilio mewnol i'r staff o fewn yr awdurdod ac i sefydliadau partner y bydd archwilio mewnol yn gweithio gyda nhw.
- Hwyluso mynediad at uwch reolwyr, y Pwyllgor Archwilio ac archwilydd allanol yr awdurdod.
- Cynorthwyo, lle bo hynny'n bosibl, gyda mynediad at sicrwydd darparwr allanol fel rheoleiddwyr, arolygwyr ac ymgynghorwyr.
- Ymgysylltu'n adeiladol â chanfyddiadau, barn a chyngor archwilio mewnol.

- Adeiladu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd llywodraethu da, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer llwyddiant yr awdurdod, ac o gyfraniadau archwilio mewnol.

9.3 Mae cefnogaeth hefyd yn golygu rhoi amodau ar waith i alluogi gwaith archwilio mewnol:

- Pan fydd uwch reolwyr yn cytuno ar strwythurau sefydliadol, rhaid iddynt sicrhau nad yw llinell adrodd uniongyrchol y Rheolwr Archwilio yn is nag aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol a bod ganddynt fynediad at holl aelodau'r tîm. Dylai'r Rheolwr Archwilio fod yn uwch reolwr, gan roi'r proffil angenrheidiol iddynt gyflawni mandad y swyddogaeth.
- Dylai sefyllfa sefydliadol y Rheolwr Archwilio gael ei gefnogi gan adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

9.4 Gall y pwyllgor archwilio ddangos ei gefnogaeth i archwilio mewnol drwy:

- holi uwch reolwyr a'r Rheolwr Archwilio am unrhyw gyfyngiadau ar gwmpas, mynediad, awdurdod neu adnoddau archwilio mewnol sy'n cyfyngu ar ei allu i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol.
- ystyried y cynllun archwilio neu'r cwmpas cynllunio a chymeradwyo neu argymell cymeradwyaeth yn ffurfiol fel bo'n briodol.
- cyfarfod o leiaf bob blwyddyn gyda'r Rheolwr Archwilio mewn sesiynau heb uwch reolwyr yn bresennol.

## 10. Hyfforddiant a Datblygiad

- Mynychu sesiynau hyfforddi perthnasol yn unol â'r Rhaglen Datblygu Aelodau gan gynnwys hyfforddiant arbenigol wedi'i deilwra ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.